


O Bydded i'r Hen laith Barhau



NODYN BODYN

W T D cal nodyn bodyn?

Gst T L8 o xxx gn ryw1?

T dal n Sbty? Gst T dnu'r p8a?

Gst T fldod, gst T F8a?

Gst T Hlo gn lryw1?

Wt T D Bd R D Bn D hl?

Wt T D Bd N tmlon lig?

Pd â pni, Tn Rbnig!

Atb V R ngs dst1,

Cru T blod1,

Gd T wd1!

Gwyneth Glyn

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Mwytha	mwythau - cwthch	cuddles



Nant Gwrtheyrn



Pentref bach ar lan y môr ger Pwllheli yng Ngwynedd ydy Nant Gwrtheyrn. Hyd at 1950au roedd yn bentref bywiog gydag ysgol a chapel. Ond wedi i'r chwarel gau roedd yn rhaid i'r dynion symud i ffwrdd i chwilio am waith. Roedd hi hefyd yn anodd iawn mynd yno gan fod y ffordd yn serth a throellog. Symudodd pob un teulu oddi yno gan adael y pentref yn hollol wag.

Ond yn 1982 cafodd y pentref ei ail adeiladu fel Canolfan Iaith. Bydd llawer iawn o oedolion yn mynd yno ar gyrsiau i ddysgu Cymraeg. Mae hefyd yn lle poblogaidd i gynnal priodasau.

Mae un chwedl enwog am y pentref. Roedd Rhys a Meinir yn mynd i briodi ac yn ôl hen draddodiad yn Nant Gwrtheyrn aeth Meinir i guddio ar fore ei phriodas tra'r aeth pawb arall i'r eglwys.

Yn ôl yr arfer aeth ffrindiau Rhys i chwilio am Meinir, ond chawson nhw ddim hyd iddi.



Ar ôl deall bod Meinir ar goll, aeth Rhys i chwilio amdani ond heb lwc. Ymhen misoedd wedyn pan oedd Rhys yn cysgodi dan ei hoff dderwen cafodd y goeden ei hollti yn ei hanner gan fellten.

Ac yno, yng nghanol y boncyff gwag, roedd sgerbwd mewn ffrog briodas! Yr oedd hyn yn ormod i Rhys druan. Cafodd drawiad ar y galon a bu farw wrth ymyl Meinir.

Maent yn dweud bod ymwelwyr wedi gweld dau ysbryd yn cerdded law yn llaw ar hyd y traeth – dyn gyda barf a gwallt hir a merch gyda thyllau gwag yn lle llygaid.



Mae mudiad Twf yn helpu rhieni i ddysgu Cymraeg i'w plant o'r crud.

Dyma un daflen gan y mudiad.



RHESWM

Wyddoch chi bod cyflwyno Cymraeg o'r cychwyn cyntaf yn...

8 rheswm da dros roi'r Gymraeg

8 good reasons to introduce Welsh

1 Mae'n rhoi dechrau da i'ch plentyn dyfu'n ddwyieithog.
It gives your child a good start to become bilingual.

2 Mae'n helpu eich plentyn wrth ddysgu darllen a chyfrif.
It helps your child when learning to read and count.

8 rheswm da dros
roi'r Gymraeg

8 good reasons to
introduce Welsh



- 3 Mae yn helpu'ch plentyn
deimlo ei fod yn perthyn.
It gives your child a sense
of belonging.
- 4 Mae'n rhoi cyfle i wneud
ffrindiau a chael profiadau newydd.
It helps your child to make friends
and gain new experiences.



8 rheswm da dros
roi'r Gymraeg

8 good reasons to
introduce Welsh



- 5 Mae'n ei gwneud hi'n haws dysgu iaith arall.
It becomes easier to learn another language



8 rheswm da dros
roi'r Gymraeg

8 good reasons to
introduce Welsh



- 6 Mae'n agor y drws i
ddiwylfannau eraill.
It opens doors to other cultures.
- 7 Mae'n rhoi mantais yn y gwaith
pan fydd eich plentyn yn hŷn.
It gives children an advantage at
work when they're older.



8 rheswm da dros
roi'r Gymraeg

8 good reasons to
introduce Welsh

- 8 Mae'n gwneud yn siŵr eu bod yn cael y gorau o'r ddau fyd.
They'll get the best of both worlds.



Geiriau Nigel Owens

Rwy'n browd iawn o'r iaith ac fe siarada i Gymraeg ble bynnag bydda i, yng Nghymru, neu mewn unrhyw ran arall o'r byd. Un o nghas bethe i yw clywed pobl sy'n Gymry Cymraeg rhugl yn siarad Saesneg â'i gilydd – ma fe'n digwydd yn llawer rhy amal y dyddie hyn.

Dwi'n cofio dyfarnu Mefin Davies pan o'dd e'n where yng Nghaerlŷr. Ni'n dau o'dd yr unig Gymry Cymraeg ar y cae ond yn Gymraeg bues i'n siarad ag e drwy'r gêm. Ro'dd y chwaraewyr erill yn edrych yn hurt arnon ni!

Ma sawl un wedi bod yn anhapus mod i'n siarad Cymraeg gyda chwaraewyr. Ond nage trio neud pwynt ydw i; yn hytrach, rwyn neud'ny am ei fod e'n beth cwbl naturiol i fi'i neud.

Byddai'n beth da cael mwy o hyfforddwyr a chwaraewyr i ddysgu rygbi trwy gyfrwng y Gymraeg – un peth bach alle wneud gwahanieth ar y meysydd rygbi, a gwneud fy swydd i'n haws!


Rhan o Ragymadrodd Nigel Owens i'r llyfr Gwneud y Pethau Bychain (gol. Ffion Heledd Gruffudd)

Geiriau Alex Jones

Cymraes lân loyw o Sir Gaerfyrddin ydy Alex Jones ac mae'n eithriadol o falch o hynny. Er ei bod yn byw yn Llundain erbyn hyn ac wedi dod yn enwog trwy Brydain fel cyflwynydd *The One Show* yr hyn roddodd fwyaf o bleser iddi oedd cael ei derbyn yn aelod o'r orsedd yn yr eisteddfod genedlaethol, 'Mae'n anrhydedd anferth i fi. Rydw i wrth fy modd,' meddai.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg



Y Pethau Bychain

Dewi Sant yw nawddsant Cymru ac yr ydym yn dathlu ei fywyd ar Fawrth 1af - Dydd Gŵyl Dewi - bob blwyddyn.

Mae rhai yn dweud fod Mawrth 1af, dyddiad ei farwolaeth, wedi ei ychwanegu i galendr yr Eglwys pan gafodd Dewi ei wneud yn sant gan y Pab Callistus II yn 1120 ond mae'r dyddiad yn cael ei nodi fel Dydd Gŵyl Dewi mewn llawysgrifau Gwyddelig o'r 9fed Ganrif hefyd.

Rhai o eiriau olaf Dewi cyn iddo farw oedd ei rai enwocaf. Yn ei bregeth olaf dywedodd, 'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, **a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i**'.

Roedd Dewi'n enwog am wneud pethau bychain oedd yn gwneud gwahaniaeth mawr i rywun arall e.e. gwneud cymwynasau, bod yn garedig a helpu.

Y Pethau Bychain

Mae'n argyfwng, dyna glywais

gan sawl un ar hyd y lle,

am fod geiriau'n mynd yn adlais

yng nghefn gwlad a fesul tre.

Ac mi glywais rai'n proffwydo

na fydd achub ar yr iaith.

Rhai mewn grym yn paldaruo

ond heb ildio llawer chwaith.

Deunaw wfft i bawb o'r rheini

dechrau wrth dy draed ar lawr.

Fesul nodyn y daw canu

adar mân yn dwrw mawr.

Er bod yna le i grio,

lle i ruo, lle i rant

dim ond chdi dy hun all lwyddo

i gysuro yr hen sant.

Rhys Iorwerth

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Argyfwng	creisis, amser anodd	crisis
Adlais	eco	echo
Proffwydo	rhagweld, gweld ymlaen i'r dyfodol	prophecy
Paldaruo	mynd ymlaen ac ymlaen am rywbeth	go on and on about something
Ildio	rhoi i mewn	give in
Rant	gwneud ffys /llawer o sŵn am rywbeth	to rant

Sgôr



Yn y nofel 'Sgôr' mae Siôn ap Gwynfor wedi gorfod symud i fyw o Fangor yng Ngogledd Cymru i ardal wledig yn Ne Cymru. Nid yw yn hapus yno.

15 Ionawr, 2016

Dwi'n casáu'r dymp'ma. Mae pawb yn gneud hwyl ar ben fy enw 'Weshie' i (be sy o'i le efo Sion ap Gwynfor?) a mwy o hwyl fyth ar ben fy acen 'gog' i, ond dwi'm yn eu deall nhw chwaith. Wel, mi rydw i go iawn, fedrwch chi'm cael eich magu ar *Pobol y Cwm* heb ddod i ddeall rhywfaint o iaith y de – ond dwi'n esgus mod i ddim. Jest i'w gwylltio nhw.

17 Ionawr, 2016

Dau ddiwrnod o ysgol sydd ar ôl, diolch byth. Mae'na griw o blwyddyn 10 ac 11 yn cael parti Dolig yn rwla nos fory, ond dwim wedi cael gwahoddiad. A finna wedi bod yn gneud'y ngora i drïo bod yn gyfeillgar a ffitio mewn – ers deuddydd. Ro'n i'n pendronni dros hyn amser egwyl bore'ma, wrth esgus sbio ar bosteri yn y cyntedd.

'Meddwl mynd?' holodd rhywun o'r tu ôl i mi. Teleri.

'Mynd i lle?' medda fi'n ddryslyd.

'Ar y trip sgïo. Ti'n edrych ar y poster yna ers deg munud o leia.'

'Ydw i?'

Do'n i ddim hyd yn oed wedi sylwi. A dyna fo, reit o flaen fy nhrwyn i, poster mawr glas yn dweud: 'Wythnos yn Val d'Isère fis Chwefror. £500. Holwch Mr John am fanylion pellach.

'Wyt...' Edrychodd hi arna i am amser hir. Mor hir, ro'n i'n teimlo fy hun yn cochi. 'Wyt ti'n oreit, Siôn?' gofynnodd hi wedyn.

'Fi? Ydw siŵr. Champion.'

Chwarddodd. 'Chi gogs mor ffyni. Champion....?'

Gwingais. Dw i byth yn dweud 'champion'. Pam oedd raid i mi ddweud champion? Weithia, mi fydda i'n teimlo fel waldio fy hun ar fy mhen efo gordd.

'Ym ... wyt ti'n meddwl mynd?'

'I lle nawr?'

'Y peth sgio'ma.'

'Nagw. Sai'n gweld y pwynt o fynd lan mynydd er mwyn dod nôl lawr eto. Na, moy'n rhoi'r poster'ma lan o'n i, ond 'sda fi ddim pinne bawd.'

Pinne bawd? Be' uffar? O ... *drawing pins* oedd hi'n feddwl. Roedd'na bedwar ohonyn nhw'n dal y poster sgïo i fyny. Mi fyddai dau yn ddigon. Felly mi dynais ddau allan a'u rhoi iddi.

'Hwda.'

Edrychodd yn hurt arna i.

'Beth? Ydw i'n edrych yn dost?'

'Y?'

'Sori, beth wedest ti?'

'Fi? Pryd?'

'Jest nawr. Rhywbeth am hwdu?'

'Chwdu?'

'Ie.'

'Ddeudis i'm byd am chwdu.'

'Beth wedest ti'te?'

'Hwda!'

'Wel'na fe, wedes i on'do fe!'

Asu, mae isio gras weithia. Ond roedd hi'n gwenu'n ddiereidus arna i a dw i bron yn siŵr

mai jyst tynnu arna i roedd hi o'r cychwyn.

'Iawn, mewn Cymraeg rhyngwladol, dyma i ti ddau bin bawd ...'

'Diolch, Siôn.' Cymerodd y ddau allan o fy llaw, a gwenu'n ddel arna i. Asu, mae ganddi hi ddannadd neis. 'Mae gen ti ddannadd neis.' Damia, do'n i ddim wedi meddwl ei ddweud o fel'na chwaith. Edrychodd hi hyd yn oed yn fwy hurt arna i.

'Beth wyt ti - ffarmwr neu rywbeth? Yn edrych arna i fel dafad?'

'Ym, naci, ddim o gwbl siŵr. Jest deud, dyna i gyd.'

'Wel ma fe'n gompliment, on'dyw e?'

'O, yndi.'

'Diolch. Ma'da tithe ddannedd eitha neis hefyd ...'

'O. Diolch. Fyddda i'n trio edrych ar eu hola nhw. Glanhau nhw cyn cysgu ac ar ôl brecwast a ballu.' O, cau dy geg, Siôn. Ti'n rwdlan.

'Diddorol iawn ...' Roedd hi'n chwerthin ar fy mhen i. Yn gwbod yn iawn mod i'n rwdlan oherwydd mod i'n ffansiō hi. Mi benderfynais gau ngheg, ac aeth hi ati i osod y poster.



Cyngor Cefn Gwlad Cymru

“Mae'r Gymraeg yn fusnes i bawb!”



Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Dringo Bannau Brycheiniog? Yr olygfa o gopa'r Wyddfa? Aer y môr ar draethau'r Gŵyr? Ie, dyna rai o'r pethau sy'n gwneud Cymru yn wlad ddeniadol i ymwelwyr. Mae llawer o'r diolch am harddwch Cymru i'r Cyngor Cefn Gwlad. Nhw sy'n gyfrifol am gynnal prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a chyfleoedd hamddena awyr agored ar draws Cymru.

Ond nid hybu amgylchedd a thirwedd Cymru yn unig y mae'r Cyngor Cefn Gwlad. Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud yn siwr bod ganddo staff sy'n siarad Cymraeg yn dangos ei fod credu bod Cymraeg yn rhan werthfawr o'r profiad o fyw yng Nghymru. Nid rhywbeth i unigolion yw'r Gymraeg iddyn nhw, ond rhywbeth i bawb. I bawb sy'n byw yng Nghymru!

Mae gan y Cyngor ardaloedd cadwraeth ar draws Cymru mewn ardaloedd gwledig a diwydiannol yn ogystal â 13 o swyddfeydd. Mae dwy swyddfa gan gynnwys y brif swyddfa wedi'i lleoli ym Mangor, gyda swyddfeydd eraill yn Yr Wyddgrug, Dolgellau, Aberystwyth, Llandeilo, Abertawe, Doc Penfro, Llandrindod, Caerdydd, Bae Caerdydd, Y Drenewydd ac yn Y Fenni. Wrth gamu trwy ddrysau'r swyddfeydd hyn fe welwch fod y Gymraeg yn cael statws uchel iawn.



i Proffil Iaith	
Tua 500 o staff	
36% o staff yn rhugl yn y Gymraeg	
30% yn ddysgwyr Cymraeg	

Y Gymraeg yn y Gweithle: Swyddi

Mae'r ffordd y mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn recriwtio staff yn dangos mor bwysig yw cynllunio gofalus wrth gynnig dewis iaith i'r cyhoedd.

Yn gyntaf, er mwyn sicrhau bod y swyddfeydd yn gweithio'n ddwyieithog, mae'n rhaid i bob aelod o staff gael rhywfaint o allu sylfaenol yn y Gymraeg.

Yn ail, mae'r Cyngor yn penderfynu pa fath o sgiliau Cymraeg, ac ar ba lefel sydd eu hangen ar gyfer swyddi. Er enghrafft, mae sgiliau Cymraeg hyd at lefel benodol gan o leiaf un aelod o'r tîmau cadwraeth a'r tîmau gwarchodfeydd yn hanfodol. Mae disgwyl hefyd i staff y dderbynfa ymhob swyddfa fedru croesawu'r cyhoedd ac ateb y ffôn yn ddwyieithog.

Y mae hefyd yn penodi mwy o staff Cymraeg i weithio mewn swyddfeydd sydd mewn ardaloedd lle ceir canran uwch o siaradwyr Cymraeg.

Yn olaf, mae'r Cyngor yn rhan o gynllun cyffrous sy'n ceisio sicrhau staff dwyieithog i'r dyfodol, sef AmNawdd. Mae'r cynllun hwn yn cynnig nawdd i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau amgylcheddol yn rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynllun ar y cyd yw hwn gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yng Nghymru lle mae myfyrwyr yn cael nawdd yn ystod eu cwrs, ynghyd â lleoliad gwaith o bump wythnos gyda bwrsariaeth.

Mae'r cyfleoedd swyddi i siaradwyr Cymraeg yn eang felly ac yn cynnwys:

- swyddi cyswllt cyntaf yn y derbynfeydd
- swyddi cadwraeth a rheoli gwarchodfeydd
- swyddi gweinyddol
- swyddi lefel uwch fel arweinwyr tîm ac uwchreolwyr.



Podlediad Jenny Pye

-1:30


Sgript Jenny Pye

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Hybu	gwella, helpu	to promote
Cadwraeth	gofalu, gwarchod,cadw	gofalu, gwarchod,cadw
Gwarchodfeydd	lle i warchod/ ofalu am	conservancy
Nawdd	help ariannol	sponsor
Bwrsariaeth	ysgoloriaeth/ cael arian	bursary
Gweinyddol	gwaith swyddfa	administrative



Pob Iaith dan Haul




Sawl gwaith ydych chi wedi clywed bod dysgu a siarad Saesneg yn bwysig? Byddai pobl yn arfer dweud ei bod yn rhaid cael Saesneg 'i ddod ymlaen yn y byd'. Ond pa mor wir ydy hynny erbyn heddiw tybed?

Dyma fap sy'n dangos ble mae prif ieithoedd y byd yn cael eu siarad.

Dosraniad ieithoedd (swyddogol neu iaith gyntaf) 2010

PRIF IEITHOEDD Y BYD YN ÔL POBLOGAETH


IAITH	NIFER O SIARADWYR (miliynau) 2010
Mandarin	955
Sbaeneg	403
Saesneg	360
Hindi	310
Arabeg	295
Portiwgeeg	215
Rwseg	155
Siapaneg	125
Almaeneg	89



Na, dydy Saesneg ddim ar ben y rhestr a does dim sôn am Gymraeg! Iaith **leiafrifol** ydy'r Gymraeg, iaith sy'n cael ei siarad gan leiafrif poblogaeth y wlad. Ond coeliwch neu beidio, mae 60 o ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop yn unig (heb sôn am weddill y byd) gyda dros 40 miliwn o bobl yn eu siarad.

Iaith **Geltaidd** ydy'r Gymraeg. Defnyddir y term **y Celtiaid** gan haneswyr ac archeolegwyr am bobl a oedd yn byw ar draws ardal eang yn cynnwys canolbarth a gorllewin Ewrop, gyda rhai pobloedd yn ymestyn cyn belled ag Asia Leiaf. Defnyddir y term hefyd am genhedloedd modern sy'n siarad iaith Geltaidd neu a oedd yn siarad iaith Geltaidd hyd yn weddol ddiweddar. Mae'r ieithoedd Celtaidd yn cael eu rhannu yn Frythoneg – Cymraeg, Llydaweg a Chernyweg – ac Oideleg, sef

Gaeleg, Gwyddeleg a Manaweg. Y gwledydd sy'n cael eu hadnabod fel "gwledydd Celtaidd" heddiw ydy'r chwe chenedl Geltaidd yng ngogledd-orllewin Ewrop – yr Alban, Cernyw, Cymru, Iwerddon, Ynys Manaw a Llydaw.



IAITH	NIFER Y SIARADWYR (2011)
Cymraeg	562,000
Gwyddeleg	94,000
Llydaweg	250,000
Gaeleg	58,000
Cernyweg	1,700
Manaweg	1,900

Mae llawer o eiriau tebyg yn yr ieithoedd Celtaidd e.e.

Cymraeg	un	dau	tri	naw	deg	du	glas	gwyn	cath	gafr	ceffyl
Llydaweg	unan	daou	tri	nav	dek	du	glas	gwen	kazh	gavr	mar'ch
Gaeleg yr Alban	aon	dà	tri	naoi	deich				cat	gabhar	
Gwyddeleg	aon	dò	tri	naoi	deich				cat	gabhar	

Beth fydd dyfodol yr ieithoedd hyn tybed?

Edrychwch ar y penawdau hyn o bapurau newydd ddiweddar:

29 IUNAWR 2015
GAN DAVID DEANS

**THE STATE OF THE WELSH LANGUAGE: NUMBER OF PEOPLE
SPEAKING WELSH FLUENTLY FALLS BY 7,000 OVER THE
LAST DECADE**

THE GUARDIAN 2 EBRILL 2015


**HOW THE MANX LANGUAGE CAME
BACK FROM THE DEAD**

HERALSCOTLAND 9 GORFFENNAF 2014

MORE LEARN GAELIC BUT LANGUAGE DECLINES IN HEARTLAND

O edrych yn fanylach o dan y pennawd 'The state of the Welsh language: Number of people speaking Welsh fluently falls by 7,000 over the last decade', fe welir bod Arolwg Iaith Llywodraeth Cymru yn 2014 wedi darganfod bod canran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 12% i 11% rhwng 2004 a 2014.

Canran o'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn rhugl



#PethauBychain

Ymgyrch y pethau bychain

Diweddarwyd 01 Awst 2014

Cyfleoedd i rannu a hyrwyddo syniadau syml i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein bywydau bob dydd.

Ry'n ni am weld yr iaith Gymraeg yn ffynnu. Felly, ry'n ni'n datblygu dulliau newydd i gynyddu defnydd yr iaith. Un o'r dulliau hynny yw ymgyrch newid ymddygiad newydd o'r enw #PethauBychain.

Mae'r ymgyrch yn cael ei ysbrydoli gan ymadrodd enwog ein nawddsant, Dewi Sant, "Gwnewch y pethau bychain".*

Nod yr ymgyrch yw annog pobl ar draws y wlad i rannu awgrymiadau ar sut y gallwn ni i gyd wneud newidiadau bach i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd.

Byw, dysgu a mwynhau yn y Gymraeg

Fe elli di gefnogi'r ymgyrch #PethauBychain mewn sawl ffordd.

Byw

Beth am ddefnyddio'r Gymraeg yn dy fywyd bob dydd drwy:

- Tecstio a defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg
- Dewis yr opsiwn Cymraeg wrth dynnu arian o'r peiriant twll-yn-y-wal
- Newid yr iaith ar dy ffôn, tabled neu gyfrifiadur.

Dysgu

Fe elli di wella dy sgiliau iaith neu sgiliau iaith dy deulu drwy:

- Dewis addysg Gymraeg neu ddwyieithog ar gyfer dy blentyn
- Dilyn cwrs gloywi iaith
- Gwisgo bathodyn 'Cymraeg' i ddangos i gwsmeriaid bod gwasanaeth dwyieithog ar gael.

Mwynhau

Dathla'r Gymraeg bob dydd drwy:

- Ymweld ag un o'r gwyliau Cymraeg sy'n digwydd dros yr haf
- Lawrlwytho neu brynu llyfr neu ap newydd Cymraeg

- Prynu nwyddau neu gynnyrch o Gymru ar gyfer dy gartref.

Cyfryngau Cymdeithasol

Drwy ddefnyddio'r hashnod #PethauBychain, fe elli di ddangos dy gefnogaeth i'r ymgyrch ar y sianelau canlynol:

- Facebook: facebook.com/Cymraeg (<https://www.facebook.com/Cymraeg>)
- Twitter: @iaithfyw (<https://twitter.com/iaithfyw>)
- Instagram: pethau_bychain (https://www.instagram.com/pethau_bychain/).

* Mae'r geiriau i'w gweld ym mhregeth olaf Dewi Sant sydd wedi ei chofnodi yn Llyfr Ancr Landdewibrefi.



Y Gymraeg
yn y
gweithle

Y Gymraeg yn y gweithle



Mae'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn sgil ychwanegol sy'n fanteisiol i bobl sy'n chwilio am swydd.

Pam mae Cymraeg yn bwysig ar fy CV?

- Mewn rhai rhannau o Gymru mae cwmnïau yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cael trafferth i recriwtio staff sydd â'r sgiliau dwyieithog priodol.
- Mae rhai cwmnïau yn recriwtio siaradwyr Cymraeg yn unig.
- Mae pobl ifanc a busnesau newydd yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae llawer o Gynlluniau Iaith Gymraeg yn nodi:

Beth mae cyflogwyr yn ei ddweud?

Byddai'r Gymraeg yn fantais enfawr i rywun sy'n dechrau ym maes darlledu. Mae'n rhoi cymaint yn rhagor o gyfleoedd i chi o ran gweithio ar raglenni Cymraeg ar S4C neu Radio Cymru

Lucy Owen
Darlledwraig

Pan fo BT yn recriwtio staff yng Nghymru, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bendant yn cael ei ystyried yn sgil ychwanegol. Mae llawer o'n swyddi yn ymwneud â delio â'r cyhoedd, felly mae gallu siarad y ddwy iaith yn ased enfawr. Pe bai gan ddau ymgeisydd yr un lefel o sgiliau, ond dim ond un ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, byddai'r unigolyn hwnnw yn fwy tebygol o gael cynnig y swydd.

Geraint Strello
Rheolwr Polisi Iaith Gymraeg, BT

Gall iaith ychwanegol fod yn fantais bersonol a phroffesiynol enfawr. Rydym yn gyson yn chwilio am staff sy'n siarad Cymraeg ac yn annog ein staff i ddysgu'r iaith. Mae hynny'n hanfodol er mwyn diwallu anghenion ein cwsmeriaid. Credwn yn gryf y dylai pobl ifanc dderbyn addysg ddwyieithog..

Alison Inker
Rheolwraig Vidal Sassoon, Caerdydd

Fel banc, rydym yn deall natur arbenigol darparu gwasanaethau mewn cymunedau dwyieithog. Mae NatWest felly yn cefnogi staff sy'n awyddus i wella eu sgiliau iaith drwy eu noddi i gymryd rhan mewn dosbarthiadau nos. Fel dysgwr fy hun, rwy'n ymwybodol iawn o'r manteision hyn wrth ddelio â chwsmeriaid sy'n dymuno trafod eu busnes gyda ni yn Gymraeg.

Mark Douglas
Cyfarwyddwr Rhanbarthol, NatWest Cymru

Mae dilyn cwrs yn ddwyieithog yn bendant yn beth cadarnhaol – mae'n dangos bod gan berson ifanc y gallu i ddysgu mewn dwy iaith. Mae iaith yn beth go wyddonol ac mae'n dangos sgil ychwanegol. Mae hyn yn wir boed yn gwrs ym maes hamdden / twristiaeth, peirianeg neu waith swyddfa.

Moe Foster
Virgin Management, Llundain

Yn TESCO, rydym yn gwybod bod pobl yn hoffi siopa yn lleol, a dyna pam rydym yn yn sicrhau bod teimlad 'lleol' i'n holl siopau. Yng Nghymru, mae hyn yn naturiol yn golygu ein bod yn cynnig gwasanaethau Cymraeg ac mae gennym arwyddion a thiliau hunanwasanaeth dwyieithog. Pan fo hynny'n bosibl, mae hefyd gennym staff sy'n siarad Cymraeg.

Enfys Fox
TESCO

Rydym wedi colli cwsmeriaid gan nad oedd gennym staff oedd yn siarad Cymraeg i ddelio â nhw. Dim ond hyd at ryw bwynt y gallwn fynd cyn i ni golli busnes gan na all ein reps siarad Cymraeg.

Design2Print, Llandudno

MAE'N FFAITH!!!!

CANLYNIADAU GWAITH YMCHWIL YN DANGOS PWYSIGRWYDD DWYIEITHRWYDD

- Disgyblion dwyieithog yn gwneud yn well na disgyblion uniaith mewn profion IQ a phrofion creadigol.
- Pobl sy'n deall Cymraeg ar gyfartaledd yn ennill 60 ceiniog yn rhagor bob awr, neu oddeutu 9%.
- Tua dwy filiwn o bobl yng Nghymru o'r farn ei bod yn bwysig i gwmnïau gynnig gwasanaeth dwyieithog.
- Cwsmeriaid yn credu bod gwasanaethau Cymraeg a chynnyrch wedi'i becynnu'n dwyieithog o ansawdd uwch.
- Defnyddio'r Gymraeg yn gwneud i gwsmeriaid deimlo'n gartrefol ac yn arwain at ffyddlondeb cwsmeriaid.
- 70% o 300 o gyflogwyr yng Ngheredigion, Powys a Meirionnydd eisiau gweithwyr dwyieithog mewn rhai swyddi. Dros gyfnod o dri mis, roedd 56% o 40 o hysbysebion swyddi yn nodi anghenion iaith, gan gynnwys 21 (52.5%) oedd yn dweud fod y Gymraeg yn ddymunol ac 19 (47.5%) yn dweud fod y Gymraeg yn hanfodol.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Diwallu	bodloni	satisfy